# CYLCHLYTHYR RHIENI/GOFALWYR
Hydref 2024

Gyrfa Cymru
Careers Wales

**Ar gyfer rhieni a gofalwyr pobl ifanc mewn addysg prif ffrwd**

## Croeso

Croeso i'n cylchlythyr hydref i rieni a gofalwyr. Yn y rhifyn hwn, rydym yn rhannu rhywfaint o gyngor defnyddiol i gefnogi eich plentyn trwy'r blynyddoedd pontio. Rydyn ni'n rhannu stori Sam ar sut y gofynnodd am gefnogaeth pan nad oedd yn mwynhau un o'i byncíau Safon Uwch. Darllenwch hefyd am y bartneriaeth wych a grëwyd gennym rhwng Kier ac Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe a'r effaith gadarnhaol a gafodd. Gobeithiwn y bydd yr holl wybodaeth a straeon yn ddefnyddiol ichi wrth gefnogi eich plentyn.

## Opsiynau pwnc Blwyddyn 9



Os yw eich plentyn ym Mlwyddyn 9, cyn bo hir bydd angen iddo ddewis ei bynciau ar gyfer Blwyddyn 10 ac 11.
Gall dewis pynciau TGAU fod yn gyfle cyffrous i gael sgwrs ystyrlon gyda'ch plentyn am ei ddyheadau, ei diddordebau, a'r pynciau y byddai'n mwynhau eu hastudio ar gyfer y dyfodol.
Er ei bod yn ymddangos yn gynnar i fod yn gwneud penderfyniadau a allai ddylanwadu ar ei lwybr gyrfa, mae'r dewisiadau hyn yn llywio'r opsiynau sydd ar gael iddo yn ddiweddarach, fel cyrsiau, cymwysterau, prentisiaethau, cyrsiau Safon Uwch a'r brifysgol.
Peidiwch â phoeni, nid oes rhaid i'r broses hon fod yn feichus.

Darllenwch ein hawgrymiadau ar gyfer dewis pwnc yma.

# Llinell amser Blwyddyn 11

Fel rhieni dysgwyr Blwyddyn 11, mae'r flwyddyn i ddod yn debygol o gynnwys cyfnodau teg a thymhestlog wrth i'ch plentyn wynebu her arholiadau TGAU. Dyma linell amser o'r prif ddigwyddiadau ichi fod yn ymwybodol ohonynt yn ystod y flwyddyn:



## Mis Medi

**Yn ôl i'r ysgol!** Dylai eich plentyn ddechrau meddwl o ddifrif am ba fath o yrfa yr hoffai ei chael, a'r camau nesaf. Os yw'n ystyried prentisiaethau, swyddi neu hyfforddiant, anogwch eich plentyn i siarad â chynghorydd gyrfa yn gynnar yn ystod y flwyddyn academaidd. Bydd cynghorwyr gyrfa ysgolion yn dechrau gwahodd dysgwyr Blwyddyn 11 i gyfweliadau gyrfa o fis Medi ymlaen. Anogwch eich plentyn i fynd i'w gyfweliad pan fydd wedi ei drefnu. Gofynnwch i'ch plentyn sut aeth ei gyfweliad gyrfaoedd yn yr ysgol. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â chynghorydd gyrfa yr ysgol.

## Mis Hydref

Mae'n bosibl y caiff eich plentyn ei wahodd i nosweithiau agored ar gyfer y chweched dosbarth a nosweithiau agored ar gyfer y coleg o fis Hydref ymlaen. Cofrestrwch i gael ein **bwletin swyddi gwag,** a fydd yn rhoi syniad teg i chi o'r mathau o swyddi sy'n cael eu hysbysebu yn lleol ac yn genedlaethol.

Bwletin Swyddi

## Mis Tachwedd

**Ffug arholiadau Blwyddyn 11 yn dechrau.** Bydd angen i'ch plentyn ddechrau meddwl am gyflwyno unrhyw geisiadau ar gyfer cyrsiau coleg, swyddi, prentisiaethau neu hyfforddiant. Gallwch ei helpu gyda'r broses ymgeisio a'i helpu i gwblhau unrhyw geisiadau ffurfiol.

## Mis Rhagfyr

Edrychwch ar yr **adran i rieni** ar wefan Gyrfa Cymru i gael rhagor o wybodaeth am sut i gefnogi eich plentyn.

Rhieni

## Mis Ionawr / Chwefror / Mawrth

Prentisiaethau mawr yn cael eu hysbysebu. Cadwch mewn cysylltiad â'ch cynghorydd gyrfa os oes gan eich plentyn ddiddordeb mewn gwneud cais am waith, hyfforddiant neu brentisiaethau. Mae angen i'ch plentyn gadarnhau ei opsiynau, ond hefyd ystyried cynlluniau wrth gefn rhag ofn y bydd pethau'n mynd o chwith.

## Mis Ebrill

Mae'n bosibl y bydd tîm Cymru'n Gweithio mewn cysylltiad â'ch plentyn i gynnig cymorth gyda cheisiadau am swyddi, hyfforddiant neu brentisiaethau. **Cymru'n Gweithio** yn rhan o Gyrfa Cymru.

Cymru'n Gweithio

## Mis Mai

**Arholiadau TGAU yn dechrau.**



## Mis Gorffennaf

Erbyn hyn, bydd disgyblion Blwyddyn 11 wedi gadael yr ysgol a bydd y rhan fwyaf wedi gwneud cais am y cam nesaf o'u dewis. Fodd bynnag, bydd rhai yn dal yn ansicr ac efallai y bydd angen cymorth arnynt. Os nad yw'ch plentyn wedi gwneud penderfyniad am ei gam nesaf, anogwch ef i gysylltu â'i gynghorydd gyrfa. Mae'n bosibl y cynigir cyfweliad iddo gyda'i gynghorydd neu gyda gwasanaeth Cymru'n Gweithio, a hynny dros y ffôn, drwy alwad fideo neu wyneb yn wyneb yn un o'n canolfannau. Fel rhiant, mae croeso i chi hefyd gysylltu â Gyrfa Cymru i drafod opsiynau eich plentyn neu os oes gennych unrhyw ymholiadau.

↗ Cysylltwch â ni



## Mis Mehefin

Y dyddiad gadael ysgol swyddogol yw dydd Gwener olaf mis Mehefin, ni waeth pryd y bydd eich plentyn yn troi'n 16 oed. Ni all pobl ifanc ddechrau prentisiaeth neu raglen hyfforddi yn swyddogol cyn y dyddiad hwn.
Mae'n bosibl y bydd cynghorydd gyrfa yr ysgol yn cysylltu â'ch plentyn yn ystod misoedd yr haf i weld a oes angen unrhyw gymorth arno i gynllunio neu i wneud cais ar gyfer ei gam nesaf. Gall hyn fod drwy neges destun, e-bost neu WhatsApp.

## Mis Awst

**Canlyniadau TGAU.**
Os bu cynlluniau eich plentyn yn llwyddiannus, bydd yn symud ymlaen i'r cam nesaf o'i ddewis. Fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd rhai pobl ifanc yn cael canlyniadau annisgwyl neu efallai y byddant wedi newid eu meddwl. Bydd cynghorwyr gyrfa ar gael ar y diwrnod canlyniadau naill ai yn yr ysgol, yn eich canolfan gyrfaoedd leol, neu dros y ffôn. Os oes angen i chi siarad â chynghorydd ar y diwrnod canlyniadau neu o gwmpas y diwrnod hwnnw, ffoniwch â 0800 0284884 neu trefnwch apwyntiad gyda chynghorydd yma.

↗ Trefnwch apwyntiad

# Eich plentyn yn y coleg neu'r chwecched dosbarth:

5 awgrym da ar gyfer cefnogi'ch plentyn gyda'i gamau nesaf.



## 1 Siaradwch am ei nodau gyrfa

Gwrandewch, byddwch yn gefnogol a rhannwch eich profiadau eich hun.

## 2 Ymchwiliwch i bob opsiwn

Dysgwch am yr holl opsiynau sydd ar gael i'ch plentyn.

Ewch i'n canllaw opsiynau yn 18.

## 3 Defnyddiwch y cyfryngau cymdeithasol

Mae cyfryngau cymdeithasol yn ffordd wych o ddod o hyd i wybodaeth allweddol i gefnogi eich plentyn. Gallwch ein dilyn ni neu sefydliadau fel UCAS am wybodaeth benodol i rieni.



## 4 Chwiliwch am swyddi gwag

Dysgwch am swyddi gwag a hyfforddiant sydd ar gael drwy ein Bwletin Swyddi a'n cyfleuster Chwilio am Brentisiaethau.

## 5 Peidiwch â phoeni!

Gallwn ni helpu. Cysylltwch â ni dros y ffôn, drwy we-sgwrs neu drwy drefnu apwyntiad yma.

# Sut gallwn ni helpu eich plentyn

## Straeon go iawn

Yn ystod yr haf cyn dechrau Blwyddyn 12, roedd Sam wedi cwblhau cyfnod o brofiad gwaith mewn milfeddygfa. Gwnaeth hyn gadarnhau ei uchelgais i fod yn filfeddyg.

Roedd Sam, o Ben-y-bont ar Ogwr, yn astudio cyrsiau cymwysterau Safon Uwch mewn bioleg, ffiseg a chemeg pan ddechreuodd Flwyddyn 12.

Ar ôl i'w wersi ddechrau, sylweddolodd Sam yn gyflym nad oedd cemeg – pwnc sydd ei angen yn aml ar gyfer cyrsiau milfeddygol – yn addas iddo.

Dywedodd Sam: "Roedd e'n anghyfarwydd i mi. Fe wnes i sylweddoli na allwn i gwblhau'r ddwy flynedd lawn yn gwneud rhywbeth nad oeddwn i'n ei fwynhau. Felly cysylltais i â Claire, fy nghynghorydd gyrfa yn yr ysgol, ac fe gawson ni sgwrs amdano."

Dywedodd Claire wrth Sam ei bod yn amser da i wneud newid, yn gynnar yn ei astudiaethau Safon Uwch, os mai dyna oedd ei ddymuniad.

Dywedodd: "Fe wnaethon ni siarad am y peth, ac fe helpodd hi mi i sylweddoli fy mod i wedi mwynhau fy ngwaith bioleg lawer mwy yn ystod yr ychydig wythnosau cyntaf yn yr ysgol."

Gwnaeth Claire gefnogi Sam i archwilio ei holl opsiynau, a pha gyrsiau prifysgol y gallai eu dilyn.



## Stori Sam

***Mae taith gyrfa pawb yn wahanol. Dyma sut roedden ni wedi gallu helpu Sam gyda'i gamau nesaf pan oedd ganddo amheuon ynghylch ei ddewisiadau Safon Uwch.***

Eglurodd Sam: "Roeddwn i eisiau gweithio gydag anifeiliaid o hyd oherwydd dyna oedd yn fy ysgogi'n fwyaf, ac fe ddaethon ni i'r penderfyniad y byddai'n dda ymchwilio i wneud rhywbeth fel y gwyddorau biolegol neu sŵoleg yn y brifysgol."

Drwy Claire, daeth Sam i wybod am y radd meistr integredig, sy'n cyfuno gradd baglor ag astudiaethau ôl-raddedig. Dywedodd Sam: "Roedd y graddau gen i felly roeddwn i eisiau gweithio tuag at gael lle yn y prifysgolion gorau.

"Dros yr haf, bûm yn gweithio gyda Claire ar fy natganiad personol. Yna, dechreuais fy nghais UCAS ac, yn y pen draw, gyda chymorth Claire, cyflwynais i gais i ddilyn cwrs sŵoleg ym Mryste, Manceinion, Glasgow a Chaerwysg a chefais gynigion gan y pedwar ohonyn nhw."

Dewis cyntaf Sam yw Prifysgol Bryste, lle mae'n gobeithio astudio gradd meistr integredig mewn sŵoleg. Ei nod hirdymor yw ennill gradd doethuriaeth a gwneud ymchwil sy'n canolbwyntio ar anifeiliaid ac ymddygiad anifeiliaid. Dywedodd: "Dw i eisiau gwneud sŵoleg yn fwy na dim."

Cyngor Sam i bobl ifanc eraill yw: "Peidiwch â phoeni a siaradwch â rhywun. Siaradwch â'r sawl hwnnw am beth bynnag rydych chi'n ei deimlo, dywedwch beth yw eich pryderon ac ewch ymlaen o fan'no.

"Rwy'n siŵr, beth bynnag a wnewch chi, a beth bynnag y byddwch yn penderfynu ei wneud o ran eich cyrsiau Safon Uwch neu eich cymwysterau TGAU, y byddwch chi'n dod o hyd i gymorth ac y byddwch chi'n gallu symud ymlaen a defnyddio pa gymwysterau bynnag sydd gennych chi i wneud y pethau hynny rydych chi wir yn eu mwynhau."

# Gweithio gyda chyflogwyr

Rydym yn trefnu digwyddiadau ledled Cymru i greu cysylltiadau rhwng cyflogwyr a phobl ifanc. Un enghraifft o'r gwaith a wnawn yw dod â chyflogwyr i mewn i ysgolion i gyflwyno gweithgareddau er mwyn rhoi cipolwg i ddysgwyr ar ddiwydiannau penodol a'r hyn y mae cyflogwyr ei eisiau gan eu gweithwyr. Dyma enghraifft o sut y cefnogodd un cyflogwr ysgol yn Abertawe:

## Disgyblion yn adeiladu ystafell ddosbarth awyr agored

Daeth Kier a Gyrfa Cymru at ei gilydd i roi cyfle i ddisgyblion Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe adeiladu ystafell ddosbarth awyr agored.
Digwyddodd y gwaith adeiladu mawr yn yr ysgol yn Abertawe yn gynharach eleni. Bu 43 o ddisgyblion ar draws blynyddoedd 9, 10 ac 11 yn gweithio'n agos gyda thîm Kier i adeiladu'r ystafell ddosbarth.
Yn ystod y gwaith adeiladu, dysgodd disgyblion am yrfaoedd yn y diwydiant adeiladu a datblygu sgiliau megis cyfathrebu a datrys problemau.
Dysgon nhw am brosesau adeiladu a gweithio gyda'i gilydd fel tîm.
Cyflawnwyd hyn gyda help contractwyr lleol Ian Williams Carpentry ac HD Carpentry.
Cafodd y disgyblion wersi iechyd a diogelwch, cyn mynd ati i adeiladu'r ystafell ddosbarth awyr agored.
Dilynodd y disgyblion blaniau a lluniadau. Gwnaethant wiriadau peirianneg sifil sylfaenol ynghyd â gwaith daear, gwaith saer a gwaith palmantu.




Dyma ddywedodd Harley Beavan, disgybl Blwyddyn 10 yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe, am ei brofiadau yn ystod y cyfnod adeiladu: "Mae'n dda achos mae'n rhywbeth gwahanol i ysgolion eraill. Rwy'n gwerthfawrogi'r ffaith fy mod i wedi cael y cyfleoedd hyn."

Ychwanegodd Harvey Green, disgybl Blwyddyn 10: "Mae hyn yn rhywbeth all fynd ar ein CVs ac mae'n dangos ein bod ni wedi bod yn gwneud rhywfaint o waith."

Dywedodd Simon Davies, pennaeth Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe: "Rwy'n credu bod datblygu partneriaethau drwy Gyrfa Cymru gyda chwmnïau fel Kier yn allweddol i ni fel ysgol.

"Mae gennym ni lawer o ddisgyblion yma sydd eisiau, ac angen, y profiadau gwaith bywyd go iawn hyn ac rydym yn ddiolchgar iawn bod Kier wedi gallu cefnogi'r prosiect hwn.

"Mae'n golygu llawer iawn i'n disgyblion – yn fechgyn a merched – sydd wedi elwa ar fod yn rhan o hyn a chael syniad o sut beth yw profiad gwaith go iawn gan y diwydiant adeiladu."


Dywedodd Jason Taylor, cyfarwyddwr rhanbarthol Kier Construction Western & Wales: "Mae wedi bod yn bleser gweithio ochr yn ochr â Gyrfa Cymru gydag Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe ar y prosiect hwn.

"Roedd y myfyrwyr a ymunodd â ni i adeiladu'r ystafell ddosbarth awyr agored hwn yn hynod frwdfrydig ac yn wirioneddol barod i ddysgu mwy am ein gwaith.

"Rydym yn edrych ymlaen at wylio'r unigolion gwych hyn yn datblygu ac yn sefydlu eu hunain yn y diwydiant adeiladu."

# Cymraeg yn y Gweithle

Mae Llywodraeth Cymru wedi gosod y targed o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.
O ganlyniad, bydd rhai swyddi yng Nghymru yn gofyn am y Gymraeg fel sgìl 'hanfodol' neu 'ddymunol'.



## Pam dysgu Cymraeg?


- Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn sgìl a fydd yn gwneud i'ch CV sefyll allan.
- Gall bod yn ddwyieithog olygu y bydd mwy o gyfleoedd ar gael ichi mewn bywyd, ac mae'n gallu ehangu eich gorwelion.
- Gall dysgu a siarad Cymraeg eich helpu i archwilio'ch cymuned leol ac ymgysylltu â hi.

Mae **86%** o boblogaeth Cymru yn teimlo bod y Gymraeg yn rhywbeth i ymfalchïo ynddi (ffynhonnell: Y Cynnig Cymraeg)

Mae **94%** o siaradwyr Cymraeg yn teimlo bod darparu gwasanaethau Cymraeg yn helpu cwmni i wneud argraff dda (ffynhonnell: Y Cynnig Cymraeg)

## Y sectorau sydd â'r nifer fwyaf o siaradwyr Cymraeg


Yn y sector iechyd a gwaith cymdeithasol, mae **16.5%** o'r gweithwyr yn siarad Cymraeg



Yn y byd addysg, mae **15.5%** o'r gweithwyr yn siarad Cymraeg



Ym maes cyfanwerthu, manwerthu a'r diwydiant moduro, mae **11.6%** o'r gweithwyr yn siarad Cymraeg



Yn y sector gweinyddiaeth gyhoeddus a'r sector amddiffyn, mae **11%** o'r gweithwyr yn siarad Cymraeg



(ffynhonnell: Y Gymraeg yn ôl nodweddion y boblogaeth (Cyfrifiad 2021) LLYW.CYMRU )

Cewch ragor o wybodaeth am y Gymraeg a gwahanol ffyrdd o ddysgu:

Dysgu Cymraeg | Gyrfa Cymru (llyw.cymru)

# Sgiliau rheoli gyrfa

## A oes y fath beth â 'swydd am oes'?

Bydd ein cynghorwyr gyrfa â chymwysterau proffesiynol yn helpu eich plentyn i ddod yn fwy effeithiol wrth reoli a chynllunio ei yrfa yn llwyddiannus.

Nid dewis galwedigaethol untro yw rheoli gyrfa, ond cyfres o gyfnodau pontio gyrfaol gydol oes.

Mae gwella sgiliau rheoli gyrfa pobl ifanc yn eu galluogi i drosglwyddo'n fwy llyfn, mwynhau lefel uwch o foddhad gyrfa, a chwarae rhan fwy gweithredol yn yr economi ac yn eu cymunedau.

Gall cynghorydd gyrfa eich plentyn ei gefnogi i ddeall y sgiliau sydd eu hangen i gynllunio ei yrfa. Mae sgiliau rheoli gyrfa yn cynnwys:

- Cymhelliant
- Gwneud penderfyniadau
- Hunanymwybyddiaeth
- Ymwybyddiaeth o gyfleoedd
- Gweithredu
- Cydnerthedd



# Cymru'n Gweithio

Mae gwasanaeth Cymru'n Gweithio yn helpu unrhyw un sy'n 16+ oed i gael swydd neu i ddod o hyd i'r cyfleoedd mwyaf addas i'w alluogi i uwchsgilio drwy gyrsiau a hyfforddiant.
Mae'r gwasanaeth yn benodol i bob unigolyn a'i amgylchiadau personol ei hun a gall helpu unrhyw un sy'n 16+ oed. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n gadael yr ysgol, y rhai sy'n wynebu'r posibilrwydd y bydd eu swydd yn cael ei dileu neu rai y mae eu swydd wedi cael ei dileu yn ddiweddar, neu rywun sydd am newid gyrfa.
Rydym hefyd yn cefnogi unrhyw un sydd eisiau uwchsgilio, meithrin hyder, creu CV, datblygu sgiliau cyfweliad neu oresgyn rhwystrau i waith.
Gallwch gael cymorth wyneb yn wyneb am ddim gan Cymru'n Gweithio yn un o ganolfannau Gyrfa Cymru neu mewn lleoliad allgymorth, dros y ffôn neu'n ddigidol.

**Cymru'n Gweithio**
#newiddystori

Cewch wybod mwy

Trefnwch apwyntiad

# Y cyfryngau cymdeithasol

## Ydych chi a'ch plentyn yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol?

Rydym yn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd ar ein holl sianeli. Dilynwch ni ar:

Facebook

Instagram

X







Gyrfa Cymru
Careers Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cysylltwch â ni:

- Gallwch gysylltu â chynghorydd gyrfa yn yr ysgol neu drwy ffonio **0800 028 4844**
- Mae gennym gyfleuster sgwrsio byw Cymru gyfan ar gael drwy **gyfracymru.llyw.cymru**
- Anfonwch neges e-bost i **post@gyrfacymru.llyw.cymru**
- Galwch heibio i un o'n **canolfannau gyrfaoedd**